CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Chwefror 3ydd 2021

Annwyl Aelod,

Gwysir chi fod yn bresennol yng nghyfarfod misol y Cyngor **nos Fercher, Chwefror 10fed, 2021** ar y we (Zoom) am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion – Ionawr 13eg, 2021
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   - i) 12. Ysgol Aber-soch
   - ii) 16. Cynnig Cyng. Erfyl W. Roberts – Cyfrifiaduron i Ysgol Botwnnog
   - iii) 17. Gohebiaeth: Cydlynydd Partneriaeth Natur Gwynedd – Tir Mynytho
   - iv) 17. Gohebiaeth: b) Ail-lenwi Cymru
   - v) 17. Gohebiaeth: c) Roy Milnes – Dark Skies
   - vi) 17. Gohebiaeth: ch) Anna E. Jones – Grisiau ar Lôn Bont Morgan
   - vii) Ciosg BT Stryd Fawr, Aber-soch – Diffribiliwr
7. **Mynwent** – Biniau
8. **Caeau Chwarae** – Grant Chwarae ar gyfer Parciau Chwarae; Archwiliad Iechyd a Diogelwch
9. **Materion Cyllidol** – Cyflenwad Trydan y Toiledau; Meinciau Solar; Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2020 – 2021; Cynyddu'r Praesept yn sgîl y posibilrwydd o Gynyddu Treth Ailgartrefi; Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol 2020 – 2021; Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol
10. **Materion Cynllunio** – Gorfodaeth; Llythyr Cyngor Tref Nefyn – Y Farchnad Dai Gwyliau
11. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Hen Arwyddbyst Sarn Bach; Ffyrdd ar Gau; Biniau Halen; Baw Cŵn ym Mynytho
12. **Materion Hawliau Tramwy** – Ail-gategoreiddio Llwybrau

13. **Traethau –**
14. **Gohebiaeth**:
    a) **Un Llais Cymru –** Cofrestra Tir EM – Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru; Hyfforddiant; Cysylltu â'ch Cymuned Leol – Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod; Eich Tref, Eich Dyfodol!; Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor
    b) Cyng. John B. Hughes – Grant Hwb Rhannu Bwyd
    c) Healthmatic – Pump Ffordd o Leihau Costau a Gwella Buddion Toiled Cyhoeddus Newydd
15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
16. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Mawrth 10fed, 2021 ar Zoom

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS CHWEFROR 2021

Anfonwyd sylwadau ar geisiadau 1 – 3 eisoes.

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C19/0519/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Adeiladu tŷ annedd (dyluniad diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd yng nghais 2/19/69A) – **Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch**
2	C20/1087/39/DT	Newid defnydd o ddosbarth defnydd C1 presennol (gwely a brecwast) i ddefnydd dosbarth C3 (tŷ preswyl), ynghyd ag addasiadau allanol – **Craigle, Lôn Gwydryn, Aber-soch**
3	C21/0017/39/HY	Arwyddion ffasgia a chrog – **Aber House, Stryd Fawr, Aber-soch**
4	C21/0032/39/DT	Addasiadau i deras/balconi blaen, ynghyd â chodi estyniad a chreu ardal allanol ar y cefn – **Tideways, Lôn Pen Cei, Aber-soch**
5	C21/0043/39/LL	Creu ardal eistedd allanol wedi'i orchuddio – **Crust, Uned 1, The Haven, Lôn Garmon, Aber-soch**
6	C20/1047/39/DT	**Cais Diwygiedig –** Estyniadau ac addasiadau – **Corner House, Lôn Golff, Aber-soch**
7	C21/0072/39/DT	Ffurfio estyniad a chyntedd ystafell fwyta newydd â tho unllethr newydd wedi'i orchuddio â llechi i ymestyn dros do gwastad presennol i'r gegin a throsi to gwastad y cyntedd presennol i un unllethr newydd wedi'i orchuddio â llechi – **Bryn Einion, Llanengan**
8	C21/0086/39/DT	Ailfodelu'r to presennol i ffurfio lefel llawr cyntaf newydd â newid mewnol, ynghyd ag adeiladu garej/tŷ cychod ar wahân newydd – **Lee Bank, Lôn Traeth, Aber-soch**
9	C21/0094/39/LL	Estyniad i adeilad cawodydd presennol – **Deucoch Camping & Touring Site, Aber-soch**